

Cais am drwydded personol

Cyn llenwi'r ffurflen hon dylech ddarllen y canllawiau ar ddiwedd y ffurflen. Os ydych yn llenwi'r ffurflen â llaw, ysgrifennwch yn glir mewn llythrennau bras. Ym mhob achos, dylech sicrhau bod eich atebion y tu mewn i'r bocsys ac wedi'u hysgrifennu neu eu teipio mewn inc du. Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os oes angen.

Efallai y byddwch yn dymuno cadw copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau ar gyfer eich cofnodion.

1. Eich manylion personol			
TEITL Ticiwch os gwelwch yn dda			
Mr <input type="checkbox"/> Mrs <input type="checkbox"/> Miss <input type="checkbox"/> Ms <input type="checkbox"/> Arall (nodwch os gwelwch yn dda)			
Cyfenw			
Enwau cyntaf			
ENWAU BLAENOROL (os yw'n berthnasol) nodwch fanylion unrhyw enwau blaenorol neu enwau cyn priodi. Parhewch ar dudalen ar wahân os oes angen.			
TEITL Ticiwch os gwelwch yn dda			
Mr <input type="checkbox"/> Mrs <input type="checkbox"/> Miss <input type="checkbox"/> Ms <input type="checkbox"/> Arall (nodwch os gwelwch yn dda)			
Cyfenw			
Enwau cyntaf			
Dyddiad Geni			
Cenedligrwydd			
Yr wyf yn 18 oed neu'n hŷn. Ticiwch		Ydw <input type="checkbox"/>	Nac ydw <input type="checkbox"/>
EICH CYFEIRIAD CYFREDOL (byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad hwn i gysylltu â chi oni bai eich bod yn llenwi'r blwch gohebiaeth ar wahân isod).			
Tref bost		Cod post	
RHIFAU FFÔN			
Yn ystod y dydd			

Gyda'r nos	
Ffôn symudol	
RHIF FFACS	
CYFEIRIAD E-BOST (os byddai'n well gennych i ni gysylltu â chi drwy e-bost)	
Lle bo hynny'n berthnasol (os yw'r ymgeisydd yn dangos hawl i weithio trwy wasanaeth gwirio hawl i weithio ar-lein y Swyddfa Gartref), y 'cod rhannu' 9 digid a ddarparwyd i'r ymgeisydd gan y gwasanaeth hwnnw (gweler nodyn 2 am wybodaeth)	

Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r cais hwn (os yw'n wahanol i'r cyfeiriad uchod)	
Tref bost	Cod post
RHIFAU FFÔN	
Yn ystod y dydd	
Gyda'r nos	
Ffôn symudol	
CYFEIRIAD E-BOST (os byddai'n well gennych i ni gysylltu â chi drwy e-bost)	

2. Eich cymwystrau trwyddedu	
Darllenwch Nodyn 1	Ticiwch
Nodwch pa un o'r datganiadau isod sydd yn berthnasol i chi:	
1. Mae gennyf gymhwyster trwyddedu achrededig	<input type="checkbox"/>
2. Mae gennyf gymhwyster ardystiedig	<input type="checkbox"/>
3. Mae gennyf gymhwyster cyfwerth	<input type="checkbox"/>
4. Rwy'n unigolyn â disgrifiad penodol	<input type="checkbox"/>
Os ydych wedi ticio datganiadau 1, 2 neu 3 rhowch fanylion eich cymhwyster yn y blwch isod (enw'r cymhwyster, dyddiad cyhoeddi, corff cyhoeddi) ac amgaewch eich cymhwyster gyda'ch cais. Os ydych wedi ticio datganiad 4, rhowch dystiolaeth eich bod yn unigolyn â disgrifiad penodol.	

3. Ceisiadau blaenorol neu rai heb eu penderfynu am drwydded bersonol		
Sylwer: Ni allwch ond cael un drwydded bersonol ar y tro.		Ticiwch
A oes gennych chi drwydded bersonol ar hyn o bryd?	Oes <input type="checkbox"/>	Nac oes <input type="checkbox"/>
A oes gennych chi unrhyw geisiadau am drwydded bersonol sydd heb eu penderfynu, gyda'r awdurdod hwn neu unrhyw awdurdod trwyddedu arall?	Oes <input type="checkbox"/>	Nac oes <input type="checkbox"/>
A oes unrhyw drwydded bersonol gennych chi wedi cael ei fforffedu yn y 5 mlynedd diwethaf?	Oes <input type="checkbox"/>	Nac ydw <input type="checkbox"/>
Awdurdod		
Trwyddedu		
Rhif y Drwydded		
Dyddiad cyhoeddi		
Unrhyw fanylion pellach		

4. RHESTR WIRIO:		
Rwyf wedi	Ticiwch	
<ul style="list-style-type: none"> • amgáu dau lun ohonof fy hun, un wedi'i gadarnhau sy'n debyg iawn i mi gan gyfreithiwr neu nodiadur, unigolyn â statws yn y gymuned neu unrhyw unigolyn â chymhwyster proffesiynol • amgáu unrhyw gymhwyster trwyddedu sydd gennyf neu brawf fy mod yn unigolyn â disgrifiad penodol • amgáu tystysgrif euogfarn troseddol neu dystysgrif cofnod troseddol neu ganlyniadau chwiliad mynediad gwrthrych data ar gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu gan y Gwasanaeth Adnabod Cenedlaethol • amgáu ffurflen datgeliadau euogfarnau troseddol a datganiad wedi'i llenwi (Atodlen 2) • cynnwys prawf o fy hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig neu'r 'cod rhannu' a roddwyd i mi gan wasanaeth gwirio hawl i weithio ar-lein y Swyddfa Gartref (gweler nodyn 2) • gwneud neu amgáu taliad o'r ffi ar gyfer y cais 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

5. Datganiad

Mae gennyf hawl gweithio yn y DU ac nid wyf yn destun amod sy'n fy atal rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud ag ymgymryd â gweithgaredd trwyddedadwy. Deallaf y bydd fy nhrwydded yn annilys os na fydd gennyf hawl byw a gweithio yn y DU.

Mae'r wybodaeth a roddir yn y ffurflen hon yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Mae'n drosedd cyflwyno datganiad ffug yn fwriadol neu'n fyrbwyll mewn neu mewn cysylltiad â chais ar gyfer trwydded bersonol. (Ystyrir bod unigolyn yn gwneud datganiad ffug os yw'n cynhyrchu, yn rhoi, yn llofnodi neu'n gwneud defnydd o ddogfen sy'n cynnwys datganiad ffug). Gallai gwneud hynny arwain at erlyniad a dirwy o unrhyw swm. Mae'n drosedd o dan adran 24B Deddf Mewnfudo 1971 i weithio'n anghyfreithlon.

LLOFNOD		DYDDIAD	
----------------	--	----------------	--

NODIADAU

Mae gwybodaeth am Ddeddf Trwyddedu 2003 ar gael ar legislation.gov.uk neu gan eich awdurdod trwyddedu lleol.

1. Cymwysterau trwyddedu

Mae cymwysterau trwyddedu yn derbyn sylw yn adran 120(8) a (9) Deddf Trwyddedu 2003.

2. Statws hawl i weithio/mewnfudo

Ni chaiff trwydded bersonol ei chyflwyno i unigolyn neu unigolyn mewn partneriaeth nad yw'n bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sy'n byw yn y DU sydd:

- heb hawl i fyw a gweithio yn y DU; neu
- yn destun amod sy'n ei atal ef/hi rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud ag ymgymryd â gweithgaredd trwyddedadwy.

Bydd unrhyw drwydded bersonol a gyflwynwyd mewn cysylltiad â chais a wnaed ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017 yn annilys os na fydd gan y deilydd hawl i weithio yn y DU mwyach.

Dylai ymgeiswyr ddangos fod ganddynt yr hawl i weithio yn y DU ac nad ydynt yn destun amod sy'n eu hatal rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud ag ymgymryd â gweithgaredd trwyddedu. Gallant wneud hyn mewn dwy ffordd: 1) trwy ddarparu copïau neu gopïau wedi'u sganio o'r dogfennau sydd wedi'u rhestru isod (nad oes angen eu hardystio) gyda'r cais hwn, neu 2) trwy ddarparu eu 'cod rhannu' er mwyn galluogi'r awdurdod trwyddedu i gynnal gwiriad gan ddefnyddio gwasanaeth gwirio hawl i weithio ar-lein y Swyddfa Gartref (gweler isod).

Dogfennau sy'n dangos yr hawl i weithio yn y DU

- Pasbort sydd wedi dod i ben neu un cyfredol sy'n dangos y deilydd, neu unigolyn a enwyd ar y pasbort fel plentyn y deilydd, yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd y DU a'i threfedigaethau sydd â'r hawl i breswyllo yn y DU [gweler isod ynglŷn â pha rannau o'r pasbort i'w copïo].
- Pasbort sydd wedi dod i ben neu un cyfredol neu gerdyn hunaniaeth cenedlaethol y deilydd, neu unigolyn a enwyd ar y pasbort fel plentyn y deilydd, yn ddinesydd gwlad yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.

- Tystysgrif Gofrestru neu ddogfen yn tystio preswyllo parhaol a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i ddinesydd gwlad yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.
- Cerdyn Preswyllo Parhaol a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i aelod o deulu dinesydd gwlad yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.
- Dogfen Mewnfudo Biometrig **gyfredol** (Trwydded Preswyllo Biometrig) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deilydd yn nodi bod y sawl a enwyd yn cael aros am gyfnod amhenodol yn y DU, neu heb derfyn amser ar eu harhosiad yn y DU.
- Pasbort **cyfredol** wedi'i ardystio i ddangos bod y deilydd wedi'i eithrio o reolaeth mewnfudo, yn cael aros am gyfnod amhendant yn y DU, â'r hawl i breswyllo yn y DU, neu heb derfyn amser ar eu harhosiad yn y DU.
- Dogfen Statws Mewnfudo **gyfredol** a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deilydd gydag ardystiad yn nodi bod y sawl a enwyd yn cael aros am gyfnod amhendant yn y DU neu eu bod heb derfyn amser ar eu harhosiad yn y DU, **pan mae'n cael ei darparu gyda** dogfen swyddogol yn dangos rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'u henw wedi'i chyhoeddi gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.
- Tystysgrif geni neu fabwysiadu a gyhoeddwyd yn y DU, **pan mae'n cael ei darparu gyda** dogfen swyddogol yn rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'u henw wedi'i chyhoeddi gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.
- Tystysgrif geni neu fabwysiadu a gyhoeddwyd yn Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Iwerddon **pan mae'n cael ei darparu gyda** dogfen swyddogol yn rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'u henw wedi'i chyhoeddi gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.
- Tystysgrif cofrestru neu ddinasyddio fel dinesydd Prydeinig, **pan mae'n cael ei darparu gyda** dogfen swyddogol yn rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'u henw wedi'i chyhoeddi gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.
- Pasbort **cyfredol** wedi'i ardystio i ddangos bod y deilydd yn cael aros yn y DU ac yn cael gweithio ar hyn o bryd ac nad yw'n destun amod sy'n atal y deilydd rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud ag ymgymryd â gweithgaredd trwyddedadwy.
- Dogfen Mewnfudo Biometrig **gyfredol** (Trwydded Preswyllo Biometrig) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deilydd sy'n dangos y gall y sawl a enwyd aros yn y DU ar hyn o bryd ac y gall wneud gwaith mewn perthynas ag ymgymryd â gweithgaredd trwyddedadwy.
- Cerdyn Preswyllo **cyfredol** a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref i unigolyn nad yw'n ddinesydd gwlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd na'r Swistir ond sy'n aelod o deulu dinesydd felly neu sydd â hawliau deilliadol neu breswyllo.
- Dogfen Statws Mewnfudo **gyfredol** yn cynnwys llun sydd wedi'i chyhoeddi gan y Swyddfa Gartref i'r deilydd gydag ardystiad yn nodi bod y sawl a enwyd yn cael

aros am gyfnod amhenodol yn y DU, ac yn cael gweithio ac nad yw'n destun amod sy'n atal y deilydd rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud â gweithgaredd trwyddedadwy **pan mae'n cael ei darparu gyda** dogfen swyddogol yn nodi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'u henw sydd wedi'i chyhoeddi gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

- Tystysgrif Cais, **llai na 6 mis oed**, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref o dan reoliad 18(3) neu 20(2) o Reoliadau Mewnfudo (yr Ardal Economaidd Ewropeaidd) 2016, i unigolyn nad yw'n ddinesydd gwlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd na'r Swistir ond sy'n aelod o deulu dinesydd felly sydd â hawliau deilliadol preswyllo.
- Tystiolaeth resymol bod gan yr unigolyn gais eithriadol i amrywio eu caniatâd i fod yn y DU gyda'r Swyddfa Gartref, fel llythyr cydnabyddiaeth y Swyddfa Gartref neu dystiolaeth o brawf postio, neu dystiolaeth resymol bod gan yr unigolyn apêl neu adolygiad gweinyddol yn aros am benderfyniad mewnfudo, fel apêl neu rif cyfeirio adolygiad gweinyddol.
- Tystiolaeth resymol bod unigolyn nad yw'n ddinesydd o wlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd na'r Swistir ond sydd yn aelod o deulu dinesydd felly neu sydd â hawliau deilliadol preswyllo wrth arfer hawliau cytundeb yn y DU gan gynnwys:-
 - tystiolaeth o hunaniaeth yr ymgeisydd ei hun – fel pasbort,
 - tystiolaeth o'u perthynas gydag aelod teulu yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd – e.e. tystysgrif priodas, tystysgrif partneriaeth sifil neu dystysgrif geni, a
 - thystiolaeth bod gan y dinesydd o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd hawl preswyllo'n barhaol yn y DU neu sy'n un o'r canlynol os ydynt wedi bod yn y DU am fwy na 3 mis:
 - (i) gweithio e.e. contract cyflogaeth, slipiau cyflog, llythyr gan y cyflogwr,
 - (ii) hunangyflogedig e.e. contractau, anfonebau neu gyfrifon archwiliedig gyda banc,
 - (iii) astudio e.e. llythyr gan yr ysgol, coleg neu brifysgol a thystiolaeth o gyllid digonol; neu
 - (iv) hunangynhaliol e.e. cyfriflenni banc.

Mae aelodau teulu dinesydd o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n astudio neu'n annibynnol yn ariannol hefyd yn gorfod rhoi tystiolaeth bod gan y dinesydd o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ac unrhyw aelodau o'r teulu yswiriant salwch cynhwysfawr yn y DU. Gall hyn gynnwys polisi yswiriant meddygol preifat, cerdyn EHIC neu ffurflen S1, S2 neu S3.

Ni ddylid anfon dogfennau gwreiddiol at awdurdodau trwyddedu. Os yw'r ddogfen y gwnaed copi ohoni yn basbort, dylid darparu copi o'r tudalennau canlynol:

- (i) unrhyw dudalen sy'n cynnwys manylion personol y deilydd gan gynnwys cenedligrwydd;
- (ii) unrhyw dudalen gyda llun y deilydd;
- (iii) unrhyw dudalen gyda llofnod y deilydd;
- (iv) unrhyw dudalen gyda dyddiad terfyn; ac
- (v) unrhyw dudalen gyda gwybodaeth yn nodi bod gan y deilydd hawl dod i neu aros yn y DU a bod ganddynt hawl i weithio.

Os nad yw'r ddogfen yn basbort, dylid darparu copi o'r ddogfen gyfan.

Bydd eich hawl i weithio yn cael ei gwirio fel rhan o'ch cais trwyddedu a gall hyn gynnwys ni'n gwirio eich statws mewnfudo gyda'r Swyddfa Gartref. Gallwn rannu gwybodaeth gyda'r Swyddfa Gartref mewn modd arall. Ni wneir penderfyniad am eich cais trwyddedu nes byddwch wedi cydymffurfio â'r canllawiau hyn.

Gwasanaeth gwirio hawl i weithio'r Swyddfa Gartref ar-lein

Yn hytrach na darparu copi o'r dogfennau a restrir uchod, gall ymgeiswyr ddangos eu hawl i weithio trwy ganiatáu i'r awdurdod trwyddedu gynnal gwiriad gyda gwasanaeth gwirio hawl i weithio'r Swyddfa Gartref ar-lein.

I ddangos eu hawl i weithio trwy wasanaeth gwirio hawl i weithio'r Swyddfa Gartref ar-lein, dylai ymgeiswyr gynnwys eu 'cod rhannu' 9 digid yn y cais hwn (a roddir iddynt ar ôl iddynt gofrestru ar y gwasanaeth ar <https://www.gov.uk/prove-right-to-work>) a fydd, gyda dyddiad geni'r ymgeisydd (a ddarperir gyda'r cais hwn), yn caniatáu i'r awdurdod trwyddedu gynnal y gwiriad.

Er mwyn pennu hawl yr ymgeisydd i weithio, bydd angen i'r gwiriad ddangos bod hawl gan yr ymgeisydd i weithio yn y Deyrnas Unedig ac nad oes unrhyw amod yn eu hatal rhag gwneud gwaith mewn perthynas ag ymgymryd â gweithgaredd trwyddedadwy.

Ni fydd gwiriad ar-lein yn bosib' ym mhob achos gan na fydd gan bob ymgeisydd statws mewnfudo y gellir ei gwirio ar-lein. Mae gwasanaeth gwirio hawl i weithio'r Swyddfa Gartref ar-lein yn nodi pa wybodaeth a/neu ddogfennau y bydd ymgeiswyr eu hangen er mwyn defnyddio'r gwasanaeth. Dylai ymgeiswyr nad ydynt yn gallu cael cod rhannu gan y gwasanaeth gyflwyno copïau o ddogfennau fel y nodir uchod.

Gall y wybodaeth rydw i wedi'i chasglu'n cael ei rhannu ag adrannau a sefydliadau eraill er mwyn i ni allu darparu gwasanaeth i chi. Mae rhagor o fanylion ar gael yn adran Hysbysiad Preifatrwydd gwefan y Cyngor.